



Rheolwyr gofal preswyl i blant sydd ar y Gofrestr – 1 Ebrill 2018

Taflen ffeithiau

Beth yw'r prif bwyntiau?

Rydyn ni wedi cofrestru rheolwyr gofal preswyl i blant ers **2007**

205 o reolwyr wedi cofrestru, cynnydd bach o **195** y llynedd



197 yn gweithio ym maes gofal preswyl i blant ar hyn o bryd

Mewn **5** awdurdod lleol, mae llai o reolwyr wedi cofrestru na sydd gwasanaethau. Efallai bod rhai unigolion yn rheoli mwy nag un cartref, neu mae yna swyddi gwag ar gyfer rheolwyr

Beth yw'r tueddiadau?

Mae nifer y rheolwyr gofal preswyl i blant ar y Gofrestr wedi cynyddu yn y **5 mlynedd diwethaf**

Nid yw'r gymhareb menywod a dynion wedi newid rhyw lawer, sef **2:1**

↑ Mae cyfran y rheolwyr sy'n gweithio yn y sector preifat wedi cynyddu o **72% yn 2013 i 78% eleni**

Mae cyfran y rheolwyr sydd wedi cychwyn swydd newydd yn y tair blynedd diwethaf wedi gostwng o **54% yn 2013 i 51% yn 2018** ↓

Faint o reolwyr sydd wedi gadael ac ymuno â'r Gofrestr?

11 o reolwyr wedi gadael y Gofrestr a **21** wedi ymuno



Pam mae'r rheolwyr wedi gadael?

7 o reolwyr heb adnewyddu

4 o reolwyr wedi newid i swydd lle nad oedd angen cofrestru, neu nad oeddynt yn gweithio ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru

9% wedi ymddeol

Pa gymwysterau sydd gan reolwyr?

Mae gan bob rheolwr gofal preswyl i blant gymhwyster perthnasol

Erbyn hyn mae gan **46.3%** Diploma FCCh Lefel 5 mewn Rheolaeth Breswyl i Blant a Phobl Ifanc Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru)



Ble mae'r rheolwyr yn cael eu cyflogi?

78% yn gweithio yn y **sector preifat**

14% yn gweithio i wasanaethau cymdeithasol **awdurdod lleol**

8% yn gweithio yn y **trydydd sector**

10% o reolwyr wedi bod yn eu rôl bresennol ers mwy na **10 mlynedd**

51% o reolwyr wedi newid i rôl newydd yn y tair blynedd diwethaf



Beth yw profil y rheolwyr?

Mae yna **132 o fenywod** a **73 o ddynion**



Eu hoedran cyfartalog yw **44**

Mae **95%** o reolwyr yn wyn, yn wyn Cymreig, yn wyn Prydeinig neu'n wyn Gwyddelig

Mae **33.5%** o reolwyr yn siarad rhywfaint o **Gymraeg** neu'n rhugl

